PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 6 RHAGFYR 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Parry(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Boyle, Goddard, Hudson, Kelloway, Murphy a/ac Simmons |

21 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Kate Lloyd a Derrick Morgan.

22 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

23 : COFNODION

Gohiriwyd yr eitem tan cyfarfod nesaf Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd

24 : CAIS CERBYD PRESTIGE – RENAULT SCENIC

Ni chafodd yr eitem hon ei hystyried am na wnaeth yr ymgeisydd fynychu

25 : AROLWG GALW TACSI

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Gyfyngiadau Trwydded Cerbyd Hacni. Cynghorwyd aelodau bod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2013 wedi penderfynu parhau â’r moratoriwm a osodwyd ar ganiatáu trwyddedau cerbyd hacni newydd am ei fod wedi ei fodloni nad oedd unrhyw gynnydd sylweddol mewn galw wedi bod. Rhoddwyd y moratoriwm ar waith yn wreiddiol yn 2010. Ar hyn o bryd mae yna 904 o gerbydau hacni trwyddedig yng Nghaerdydd a 1100 o Gerbydau Hurio Preifat.

Yn ei Ganllaw ar arfer da mae’r Adran Drafnidiaeth (AD) yn cymeradwyo lle bo awdurdod lleol yn gosod cyfyngiad ar ganiatáu trwyddedau cerbyd hacni, dylid cwblhau arolwg annibynnol o leiaf bob tair blynedd i asesu lefel y galw ar y pryd. Comisiynwyd AECOM Ltd gan Gyngor Caerdydd i fynd i’r afael ag arolwg annibynnol o’r galw sydd am dacsis yng Nghaerdydd ym mis Chwefror 2016. Argymhelliad cyffredinol adroddiad AECOM oedd nad oedd yna unrhyw alw sylweddol nad oedd yn cael ei ddiwallu ac y dylid parhau â’r moratoriwm presennol ar ganiatáu trwyddedau cerbydau hacni newydd.

Darparodd yr adroddiad hwn fwy o fanylion i’r Pwyllgor ar sut y cwblhawyd yr arolwg a’r canfyddiadau ychwanegol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau. Holodd aelodau os oedd bwriad i gynyddu nifer y safleoedd tacsis ac fe'u hysbyswyd bod ystyriaeth yn cael ei roi p'un ai ei bod hi'n ymarferol i ddefnyddio'r lôn fysiau wedi oriau ai peidio, er bod hyn yn cyflwyno rhai problemau cyfreithiol. Ar hyn o bryd nid yw'n bosib cynyddu nifer u safleoedd tacsis yng Nghanol y Ddinas.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, nododd y Swyddog fod yr arolwg yn ymwneud â cherbydau hacni ac felly ni fyddai tacsis Uber wedi cael unrhyw effaith ar ganfyddiadau'r arolwg.

Holodd aelodau pam y bu cymaint o gynnydd yn nifer y Cerbydau Hurio Preifat ac fe'i cynghorwyd fod gan gwmnïau Hurio Preifat eu safonau caeth eu hunain. Cynghorwyd Aelodau hefyd bod yr adnoddau presennol ond yn caniatáu i 6 swyddog archwilio a monitro safonau.

Holodd Aelodau ynghylch yr hyfforddiant anabledd a roed i yrwyr ac fe'u hysbyswyd bod yna ofynion caeth ar waith o safbwynt hyfforddiant anabledd a bod gyrwyr o'r farn bod yr Awdurdod yn rhy llym. Gobeithir cyflwyno polisi newydd yn y man a fydd yn cynnwys gwybodaeth/hyfforddiant o safbwynt materion Diogelu.

Mae trafferthion cyfathrebu gyda gyrwyr a'r gwahanol gwmnïau yn parhau. Mae cyfarfodydd wedi eu trefnu fodd bynnag mae presenoldeb wedi bod yn isel ac mae swyddogion nawr yn edrych ar ddarparu Tudalen Wybodaeth i Yrwyr ar y wefan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i yrwyr a chwmnïau.

PENDERFYNWYD – Ar sail canlyniadau'r arolwg AECOM, cymeradwyodd y PWYLLGOR fod y moratoriwm presennol ar fater trwyddedau i berchnogion cerbydau hacni i barhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00am